Cafcass Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Fframwaith Ymarfer Cafcass Cymru

# Rhoi Plant yn Gyntaf



# Rhoi Plant yn Gyntaf

**Mae Cafcass Cymru yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc. Ein nod yw eu cadw'n ddiogel drwy gydol eu taith yn y system cyfiawnder teuluol a gweithio tuag at sicrhau'r canlyniadau gorau posibl iddynt.**

Mae'r Fframwaith Ymarfer yn rhoi strwythur sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ni sy'n ein helpu i gyflawni ein dyhead i sicrhau bod lleisiau plant yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn. Mae'n ein cefnogi i rannu sgiliau, gwybodaeth ac arferion da ar draws y sefydliad. Mae'n nodi'r gwerthoedd rydym yn gweithio yn unol â nhw ac yn darparu iaith gyffredin sy'n ein helpu i gyfathrebu'n glir â phob un o'n timau. Mae hefyd yn rhoi gweledigaeth gyffredin i ni ar gyfer y plant a'r teuluoedd rydym yn eu cefnogi drwy'r system cyfiawnder teuluol yng Nghymru.

Mae'r Fframwaith hwn yn disgrifio'r diwylliant rydym am ei weld yn Cafcass Cymru; un sy'n croesawu ac yn dathlu gwahaniaeth ac unigoliaeth ac yn helpu pob aelod o staff i gysylltu â'n gwerthoedd a byw yn unol â nhw.

Mae'r Fframwaith yn esbonio sut rydym yn datblygu ac yn darparu'r gwasanaethau gorau posibl i blant a'u teuluoedd. Mae hefyd yn helpu ein hasiantaethau partner, a'r rhieni, y gofalwyr a'r bobl ifanc rydym yn gweithio gyda nhw i ddeall ein dull gweithredu a'r egwyddorion sy'n sail iddo. Yn syml, mae'n disgrifio *sut* rydym yn gweithio a *pham* rydym yn gweithio yn y ffordd hon.

Mae ein gwerthoedd, a nodir yn ein **Cynllun Strategol**, yn dangos ein hymrwymiad i Roi Plant yn Gyntaf, dangos parch at bawb a gweithio mewn ffordd broffesiynol. Mae'r Cynllun hefyd yn adlewyrchu ein hymrwymiad i greu amgylchedd lle mae'r staff yn teimlo eu bod wedi'u cysylltu â'u gwaith, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi i wneud eu gorau dros blant a theuluoedd.

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig ydyw i'n huwch-arweinwyr fod yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt, ac rydym yn gwerthfawrogi barn pob aelod o'r staff.

Rydym yn sefydliad sy'n dysgu; yn unigol ac ar y cyd. Rydym yn dysgu oddi wrth y naill a'r llall, oddi wrth y plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd rydym yn eu cefnogi ac oddi wrth gydweithwyr a phartneriaid o bob rhan o'r system cyfiawnder teuluol.

Gwnaethom ddatblygu'r Fframwaith Ymarfer gyda mewnbwn gan ein staff, pobl ifanc o'r **Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc** a phartneriaid eraill. Ein nod yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y cymorth gorau posibl sydd wedi'i bersonoli ac sy'n gymesur. Rydym am i bob sgwrs a phob penderfyniad ddechrau gyda'r plentyn a pharhau i ganolbwyntio ar y plentyn, fel y gallwn helpu i sicrhau canlyniadau diogel ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc rydym yn eu cefnogi yng Nghymru.

# Ein Hegwyddorion

**1. Gweithlu iach, medrus ac sy'n cael ei werthfawrogi.**

**2. Y gyfraith a'r canllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth rydym yn eu dilyn.**

**3. Ein gwerthoedd a'n hymddygiadau.**

**4. Ein model ymarfer.**



# Gweithlu Iach, Medrus ac sy'n cael ei Werthfawrogi

**Mae iechyd a llesiant ein gweithlu yn ganolog i'n Fframwaith Ymarfer gan na allwn gyflawni ein nodau heb dîm iach, sefydlog a chynaliadwy. Ein pobl yw ein hased mwyaf, ac rydym yn gwerthfawrogi'r sgiliau, y wybodaeth a'r unigoliaeth y mae pawb yn eu cynnig.**

Rydym yn meithrin cryfderau, yn croesawu gwahanol safbwyntiau, ac yn annog trafodaethau myfyriol. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael cymorth rheolaidd ac wedi'i bersonoli sy'n cynnwys amser i fyfyrio ar eu hanghenion datblygu a'u llesiant.

Rydym hefyd yn buddsoddi mewn datblygiad proffesiynol parhaus, fel bod gan ein staff y sgiliau a'r hyder i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i blant a theuluoedd.



# Ein Cyfrifoldebau Cyfreithiol

**Mae pwy ydym ni a'r hyn rydym yn ei wneud yn chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi plant a theuluoedd pan fyddant yn ymwneud â'r llys teulu a phan fydd y llys yn gofyn i ni helpu. Mae Rhan 4 o Ddeddf Plant 2004 yn nodi ein prif swyddogaethau:**

- Diogelu a hybu lles plant.
- Cynghori'r llys ar geisiadau a wneir mewn achosion.
- Sicrhau bod plant yn cael eu cynrychioli mewn achosion.
- Rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth i blant a'u teuluoedd.

Mae ein gwaith yn eang ac yn gymhleth yn aml, ac mae'n perthyn i ddau brif faes: **Cyfraith Gyhoeddus** a **Chyfraith Breifat**. Mae'r holl waith a wneir yn seiliedig ar yr un dulliau, gwerthoedd, egwyddorion a chredoau. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael profiad cyson pan fyddwn yn ymgysylltu â nhw.

**Mae diogelwch a lles y plentyn wrth wraidd ein penderfyniadau, ein rhyngweithiadau a'n hargymhellion ar bob cam. Rydym yn sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed yn y llys teulu.**

Mae llawer o gyfrifoldebau deddfwriaethol eraill, ynghyd â chyfarwyddiadau ymarfer a chanllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n helpu i lywio ein gwaith a phennu'r egwyddorion rydym yn eu dilyn. Mae hyn yn cynnwys:

- Deddf Cam-drin Domestig 2021
- **Canllawiau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gyda theuluoedd ble mae gan y rhiant anabledd dysgu**
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Plant 1989
- Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, sy'n corffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn deddfwriaeth Gymreig.
- Y **Siarter Rhianta Corfforaethol** – Addewid Cymru, sy'n nodi sut y dylem weithio gydag oedolion a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, y mae Cafcass Cymru wedi'i chymeradwyo.
- Rydym yn darparu ein gwasanaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, fel y nodir yn **Safonau'r Gymraeg**.



# Ein Gwerthoedd a'n Hymddygiadau

**Gan weithio gyda'n staff, rydym wedi nodi gwerthoedd ac egwyddorion allweddol sy'n arwain y ffordd rydym yn ymddwyn gyda'n gilydd a'r bobl rydym yn gweithio gyda nhw. Ein nod yw meithrin ac ymgorffori diwylliant sy'n rhoi plant yn gyntaf, sy'n gynhwysol, yn broffesiynol ac sy'n seiliedig ar uniondeb a pharch. Mae'r diwylliant hwn yn annog ac yn cefnogi pawb, ar bob lefel, i wneud eu rhan i wneud bywyd yn well i'r plant a'r bobl ifanc rydym yn gweithio gyda nhw.**

Byddwn yn:

- Meithrin cydberthnasau parchus a phroffesiynol gyda phobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth. Byddwn yn agos atoch, yn addasu i anghenion unigol, ac yn gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym. Byddwn yn onest ynglŷn â'r hyn y gellir ei gyflawni, yn myfyrio ar yr hyn a glywsom, ac yn esbonio ein safbwyntiau yn glir pan fyddant yn wahanol.
- Gweithio'n dda gyda gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill, gan ddefnyddio prosesau cyfathrebu clir, parchus a phroffesiynol, gan addasu ein dull lle bo angen.
- Cydweithio mewn ffordd gyson, gan gefnogi ein gilydd i wneud yn siŵr bod pob plentyn neu berson ifanc yn cael gwasanaeth amserol o'r ansawdd gorau.
- Trin gwybodaeth bersonol yn gywir ac yn ddiogel, gan gadw data yn ddiogel bob amser.
- Cymryd cyfrifoldeb am ein hymddygiad a'n dysgu ein hunain, gan ddefnyddio cydberthnasau cryf a chefnogol gyda chydweithwyr i fyfyrio ar ein gwaith a dysgu o brofiad a gwybodaeth ein gilydd. Byddwn yn dysgu o ganmoliaethau, cwynion a phob math o adborth.



Yn ogystal, bydd ymarferwyr yn:

- Gweithio gyda theuluoedd gan ddangos empathi, tosturi a chreadigrwydd, a meithrin cydberthnasau sy'n cefnogi newidiadau cadarnhaol. Byddwn yn chwilfrydig, yn sensitif ac yn fyfyriol, gan barhau i fod yn broffesiynol a chanolbwyntio ar wella canlyniadau diogel i blant a phobl ifanc. Byddwn yn gweithio mewn ffyrdd sy'n ceisio osgoi peri rhagor o drawma i ddioddefwyr-oroeswyr cam-drin domestig neu niwed arall, gan ddefnyddio dull gweithredu diogelwch yn gyntaf bob amser.
- Defnyddio ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau, gan gydnabod yr hyn y mae teuluoedd yn ei wneud yn dda ac adeiladu arno. Caiff hyn ei gydbwyso â chwilfrydedd proffesiynol, sgyrsiau gonest am bryderon a her briodol i'n helpu i ddeall risg a'i hasesu'n llawn.
- Cynnal y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gynnal asesiadau risg effeithiol o ansawdd uchel, gan ddadansoddi'r holl dystiolaeth sydd ar gael yn broffesiynol. Bydd ein hadroddiadau llys yn canolbwyntio ar y plentyn, yn gymesur ac yn canolbwyntio ar wneud argymhellion diogel. Byddant yn adlewyrchu dymuniadau, teimladau ac anghenion pob plentyn, ac yn ystyried cryfderau rhieni a gofalwyr yn ogystal â'u gallu i wneud newidiadau cadarnhaol sy'n eu galluogi i ddiwallu anghenion eu plant yn ddiogel, nawr ac yn y dyfodol. Byddwn yn ystyried unrhyw anghenion a hawliau cystadleuol, ond diogelu a gwarchod y plentyn fydd yn dod gyntaf bob amser.




# Rhoi Plant yn Gyntaf – Ein Haddewid i Blant a Phobl Ifanc

**Rydym wedi gwrando ar blant a phobl ifanc o'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc, a ddywedodd wrthym beth sydd bwysicaf iddynt.**

Rydym yn addo y byddwn yn defnyddio dull diogelwch yn gyntaf ac yn:

- Eich trin â pharch a meithrin cydberthynas llawn ymddiriedaeth, er y gall ein hamser gyda'n gilydd fod yn fyr. Byddwn yn onest, yn agored ac yn ddibynadwy. Ni fyddwn yn gwneud unrhyw dybiaethau amdanoch, a byddwn yn sicrhau eich bod yn deall beth sy'n digwydd. Byddwn yn esbonio eich hawliau, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am unrhyw oedi, ac yn gofyn beth yw eich enw a'ch rhagenwau dewisol. Byddwn yn canfod beth sy'n bwysig i chi: eich hoff bethau, eich cas bethau, yr hyn sy'n eich gwneud chi'n unigryw a phwy sy'n bwysig yn eich bywyd. Byddwn yn dweud wrthych sut i gysylltu â ni ac yn eich cyfeirio at bobl eraill a allai helpu.
- Gwrando'n ofalus arnoch, gan wneud yn siŵr bod eich barn, eich dymuniadau a'ch teimladau'n cael eu clywed. Byddwn yn gweithio i ddeall eich profiad bywyd a sicrhau ei fod yn cael ei ystyried ym mhob penderfyniad y mae'r llys yn ei wneud amdanoch chi. Pan fyddwn yn gwneud argymhellion, byddwn yn cydbwyso'r hyn rydych yn ei ddweud â'r hyn rydym yn credu a fydd yn eich cadw'n ddiogel ac yn cefnogi eich llesiant. Byddwn yn gofyn i chi am y ffordd orau o roi gwybod i chi beth mae'r llys yn ei benderfynu.
- Bod yn greadigol ac yn ymatebol yn y ffordd rydym yn gweithio gyda chi. Os nad yw'r ffordd gyntaf rydym yn ceisio ymgysylltu â chi yn teimlo'n iawn, byddwn yn rhoi cynnig ar ddull gwahanol.
- Darllen papurau'r achos cyn i ni gwrdd â chi, fel ein bod yn deall eich sefyllfa ac unrhyw achosion llys yn y gorffennol. Byddwn yn esbonio ein rôl, ein cyfrifoldebau a'n hargymhellion mewn iaith glir. Byddwn hefyd yn esbonio pam y gall penderfyniad y llys fod yn wahanol i'ch dymuniadau weithiau.
- Siarad â'r bobl bwysig yn eich bywyd er mwyn ein helpu i ddeall eich profiadau. Mae'n bosibl y byddwn yn siarad â'ch brodyr a'ch chwiorydd ar wahân er mwyn clywed barn pawb am yr hyn sy'n digwydd.
- Bod yn hyblyg o ran pryd a ble rydym yn cyfarfod ac yn meddwl am sut y gallwn eich helpu i deimlo'n gyfforddus, gan gynnwys beth rydym yn ei wisgo, sut rydym yn eistedd, a sut rydym yn creu awyrgylch hamddenol.

**Byddwn hefyd yn rhoi gwybodaeth i chi am sut i rannu eich adborth, gan gynnwys sut i wneud cwyn os byddwch yn teimlo nad ydym yn cadw'r addewidion a gaiff eu nodi yn y Fframwaith hwn.**



# Ein Model Ymarfer

## Mae ein model ymarfer yn seiliedig ar fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma.

Fel sefydliad gwaith cymdeithasol, mae ein hymarfer hefyd yn cael ei lywio gan ymchwil a theori. Mae hyn yn ein helpu i ddeall beth sy'n digwydd i'r unigolion a'r teuluoedd rydym yn gweithio gyda nhw ac yn ein helpu i fod yn hyblyg ac yn ymatebol i amgylchiadau pob person.

Mae hyn yn golygu ein bod yn cydnabod y gall trawma blaenorol ddylanwadu ar ymatebion pobl i'w sefyllfa ac i'n cysylltiad â'r mater. I helpu pawb rydym yn gweithio gyda nhw i deimlo'n ddiogel yn gorfforol ac yn emosiynol, byddwn yn mabwysiadu dull diogelwch yn gyntaf ac yn gwneud ymdrech weithredol i osgoi peri trawma pellach i unrhyw un drwy wneud y canlynol:

- Meithrin cydberthnasau diogel, dibynadwy a llawn ymddiriedaeth sy'n cefnogi camau i ddatrys problemau a sicrhau newid cadarnhaol. Byddwn yn agored ac yn onest ar bob cam, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd anodd. Byddwn yn gwrando'n ofalus ar bobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth, yn ogystal â chydweithwyr a rhanddeiliaid, i helpu i lywio ein dysgu a'n gwelliant parhaus.
- Cefnogi pobl yn rhagweithiol gan ddefnyddio dull cydgynhyrchiol a chydweithredol sy'n seiliedig ar gryfderau. Rydym yn gweithio ochr yn ochr ag unigolion i nodi, deall a diwallu eu hanghenion, gan hyrwyddo diogelwch seicolegol a chorfforol.
- Cydnabod effaith amrywiaeth, gwahaniaethu a hiliaeth, a deall sut y gall anghydraddoldebau diwylliannol, hanesyddol a rhyweddol effeithio ar brofiadau pobl. Rydym yn ymrwymedig i fod yn gynhwysol ym mhob agwedd ar ein gwaith.
- Lleihau effaith trawma proffesiynol ar ein staff drwy greu amgylcheddau, systemau a ffyrdd o weithio sy'n gefnogol, yn cydnabod yr heriau hyn ac yn annog hunanofal. Mae ein dull goruchwylio a chefnogi yn rhoi'r un faint o bwyslais ar lesiant, dysgu a datblygu, a pherfformiad, a cheir cyfleoedd ychwanegol i'n hymarferwyr gael trafodaethau myfyriol am achosion.



# Yn Canolbwyntio ar Ganlyniadau – Ein Mesurau Llwyddiant Allweddol:

Mae ein gwaith yn gwneud gwahaniaeth i blant a theuluoedd drwy ganolbwyntio ar y canlyniadau sydd bwysicaf.

| Canlyniad | Yn ymarferol | Y gwahaniaeth y mae hyn yn ei wneud |
|---|---|---|
| **1. Diogel** | • Rydym yn meithrin cydberthnasau sy'n ddiogel yn emosiynol ac yn llawn ymddiriedaeth drwy weithio mewn ffordd agored a chydweithredol.<br>• Rydym yn casglu gwybodaeth yn barchus.<br>• Rydym yn defnyddio dull ymchwilio sy'n seiliedig ar gryfderau.<br>• Rydym yn gwneud penderfyniadau sy'n amddiffyn y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf. | • Mae pobl yn teimlo'n ddiogel a bod ymarferwyr yn gwrando arnynt ac yn eu parchu.<br>• Caiff cryfderau a risgiau eu nodi'n glir, a deellir eu heffaith ar y plentyn, gan arwain at argymhellion cytbwys a diogel. |
| **2. Llais y Plentyn** | • Rydym yn cyflwyno ein hunain ac yn helpu'r plant i deimlo'n gyfforddus, gan gwrdd â nhw mewn lle ac mewn ffordd sy'n gweithio iddynt.<br>• Rydym yn gwrando ar yr hyn sy'n bwysig iddynt, yn myfyrio ar eu profiad bywyd a'u dymuniadau a'u teimladau. | • Caiff lleisiau plant eu clywed, eu deall a'u rhoi wrth wraidd achosion llys. |
| **3. Cynrychiolaeth Well** | • Rydym yn gofyn i blant a theuluoedd am eu hunaniaethau, eu profiadau a'u hamgylchiadau unigryw.<br>• Rydym yn cydnabod effaith y ffactorau hyn ac yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon i lywio ein hargymhellion.<br>• Rydym yn ystyried effaith oedi a byddwn ond yn argymell adroddiadau arbenigol pan fyddant yn hanfodol er lles y plentyn. | • Mae plant a theuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u deall, a bod eu profiadau unigol wedi cael eu cydnabod.<br>• Maent yn cael gwasanaeth amserol a chymesur. |
| **4. Galluogi a Chynghori** | • Rydym yn rhannu gwybodaeth â phlant ac oedolion drwy gydol ein cysylltiad â'r mater.<br>• Rydym yn dryloyw o ran ein rôl a'r rhesymau dros ein hargymhellion.<br>• Rydym yn helpu plant ac oedolion i gymryd rhan yn y broses asesu a gwneud penderfyniadau. | • Mae plant a theuluoedd yn deall beth sydd wedi digwydd pan ddaw ein gwaith gyda nhw i ben.<br>• Mae'r wybodaeth rydym yn ei chasglu yn helpu'r llys i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth er lles pennaf y plentyn.<br>• Mae teuluoedd yn cael eu cyfeirio at wasanaethau perthnasol ac yn cael awgrymiadau clir ar gyfer y camau nesaf. |



OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54757, ISBN digidol 978-1-80853-067-8
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg